O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 194 (Cy. 25)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pont Eyarth i Bwll-glas, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*1 Chwefror 2013*
Yn dod i rym	*11 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pont Eyarth i Bwll-glas, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. — Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 11 Chwefror 2013 ac yn dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 i'r de o Ruthun, yn Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Phont Eyarth i ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Clwb Golff Pwll-glas.

.